


Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Arolygon gwirio cyfryngau cymdeithasol: Cyrff Cenedlaethol Cymraeg (Rheoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 2)



Cynnwys

1	Cyflwyniad	3
2	Methodoleg	4
3	Canfyddiadau	5
4	Tueddiadau	7
5	Casgliadau ac Argymhellion	9
	Atodiadau	10


1 Cyflwyniad

- 1.1 Eleni, rydym wedi adolygu ein trefniadau ar gyfer monitro a rheoleiddio cydymffurfiaeth sefydliadau cyhoeddus â'u dyletswyddau iaith, er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â nodau'r Cynllun Strategol a'r Deilliannau Rheoleiddio a gyhoeddwyd yn 2024-2025.
- 1.2 Fel rhan o'r adolygiad hwn, buom yn ystyried pa newidiadau a dulliau amgen oedd eu hangen i wneud y defnydd gorau o'n hadnoddau, ac i hyrwyddo cydymffurfiaeth mewn modd mwy rhagweithiol.
- 1.3 Roeddem yn awyddus i ddatblygu dulliau monitro a hyrwyddo a fyddai'n rhoi mwy o sicrwydd i ni ynghylch cydymffurfiaeth sefydliadau. Penderfynwyd cynllunio arolygon gwirio i'w cynnal yn chwarterol, gyda chanlyniadau'n cael eu hadrodd yn ôl i'r sefydliadau o fewn yr un chwarter.
- 1.4 Un o fanteision allweddol y dull hwn o fonitro yw bod sefydliadau'n cael gwybod am unrhyw faterion cydymffurfiaeth mewn modd amserol drwy gydol y flwyddyn, gan roi cyfle iddynt weithredu atebion priodol yn brydlon.
- 1.5 Mae cyfryngau cymdeithasol wedi'u nodi fel maes blaenoriaeth ar gyfer pob sefydliad eleni. Daw hyn yn sgil y ffaith bod arferion sefydliadau yn y maes hwn wedi esblygu'n sylweddol dros y pedair blynedd ddiwethaf, gyda defnydd cynyddol o amrywiaeth o blatfformau.
- 1.6 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o ganfyddiadau'r arolygon gwirio a gynhaliwyd ar sampl o sefydliadau o fewn y Cyrff Cenedlaethol Cymraeg sy'n ddarostyngedig i Reoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 2 gan gyflwyno argymhellion i chi eu hystyried i sicrhau gwell cydymffurfiaeth o fewn eich sefydliad chi.
- 1.7 Er inni gynnal yr arolwg gyda sampl o'r sefydliadau yn unig, mae canfyddiadau'r adroddiad hwn ynghyd â'r argymhellion yn berthnasol i'r holl sefydliadau sydd yn ddarostyngedig i Reoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 2.

2 Methodoleg

- 2.1 Arolygwyd sampl o 7 sefydliadau sy'n ddarostyngedig i Reoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 2.
- 2.2 Arolygwyd y sefydliadau yn ystod Gorffennaf 2025.
- 2.3 Mae Rheoliadau Rhif 2 sef Rheoliadau Safonau'r Gymraeg sy'n berthnasol i'r sector hwn, yn cynnwys dwy safon, sef safon 54 a safon 55 sy'n cyfeirio at ddefnydd sefydliadau o'r cyfryngau cymdeithasol.
- 2.4 Mae Safon 54 yn nodi '*Pan fyddwch yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, rhaid i chi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg*'.
- 2.5 Mae Safon 55 yn cyfeirio at ymateb i bobl ar y cyfryngau cymdeithasol - '*Os bydd person yn cysylltu â chi drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg, rhaid ichi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb)*'.
- 2.6 Roedd yr arolygon hyn yn canolbwyntio ar gydymffurfiaeth â safon 54.
- 2.7 Gwiriwyd platfformau Facebook a X (Twitter gynt) gan ganolbwyntio ar brif gyfrifon y sefydliadau. Gwiriwyd hefyd cyfrifon ar Instagram a LinkedIn ar gyfer y 7 sefydliad. Nid yw'r Comisiynydd wedi arolygu'r platfformau hyn yn y gorffennol. Nid oedd pob sefydliad yn defnyddio'r platfformau hyn. Gwiriwyd 10 neges diweddar gan bob sefydliad ar eu prif gyfrifon ar gyfer y ddau blatfform hwn.
- 2.8 Gwiriwyd – 193 o negeseuon ar draws yr holl blatfformau gan wirio:
 - A oedd y neges ar gael yn Gymraeg?
 - A oedd y neges yn cydymffurfio â gofynion safonau yn ymwneud â chyfryngau cymdeithasol?
 - A oedd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?
- 2.9 Yn ogystal, gwiriwyd cydymffurfiaeth â safon 79 sy'n ymwneud â hunaniaeth gorfforaethol. Mae safon 79 yn nodi '*Pan fyddwch yn llunio, yn diwygio neu'n cyflwyno eich hunaniaeth gorfforaethol, rhaid i chi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg*'.

3 Canfyddiadau



- 3.1 Mae'r arolygon eleni wedi canfod bod sefydliadau wedi cydymffurfio yn well wrth gyhoeddi negeseuon ar y platfform X (92.5%). Y platfform lle roedd lefel cydymffurfiaeth ar ei isaf oedd LinkedIn (44%). Roedd 56% o'r negeseuon a wiriwyd ar Instagram yn cydymffurfio yn llawn tra bod 72% o'r negeseuon ar Facebook yn cydymffurfio yn llawn.

Facebook ac X

- 3.2 Dangosodd canlyniadau'r arolygon eleni fod 75% o'r negeseuon a wiriwyd ar gyfrifon Facebook, a 92% ar gyfrifon X, ar gael yn Gymraeg yn llawn. Mae'r ffigyrau hyn yn adlewyrchu lefel uchel o gydymffurfiaeth ar draws y platfformau, gyda dim ond tair neges o'r 193 a wiriwyd heb fersiwn gyfatebol yn Gymraeg – y rhain i gyd ar blatfform X, gan ddwy sefydliad gwahanol.
- 3.3 Yn achos platfform Facebook, roedd pedwar sefydliad wedi cydymffurfio'n llawn ym mhob un o'r 10 neges a wiriwyd, tra bod un sefydliad wedi cydymffurfio'n rhannol gyda phob un o'r negeseuon. Mae hyn yn awgrymu ymrwymiad cyson i ddarparu cynnwys Cymraeg, er bod lle i gryfhau'r ddarpariaeth ymhellach.
- 3.4 O'r saith cyfrif a wiriwyd ar Facebook, roedd gan un sefydliad gyfrif Cymraeg ar wahân, ac roedd un cyfrif yn uniaith Saesneg. Ar X, o'r chwe cyfrif a wiriwyd, roedd gan bedwar sefydliad gyfrif Cymraeg ar wahân. Efallai bod lle yma i ystyried dull mwy cyson ar draws sefydliadau.

Instagram


- 3.5 Ar blatfform Instagram, roedd 56% o'r negeseuon a wiriwyd yn cydymffurfio'n llawn â gofynion safon 54, gyda 100% o'r negeseuon ar gael yn Gymraeg.
- 3.6 Roedd dau sefydliad wedi cydymffurfio'n llawn ym mhob un o'r 10 neges a wiriwyd, gan adlewyrchu arferion da o ran darparu cynnwys Cymraeg.

- 3.7 Fodd bynnag, gwelwyd bod y Gymraeg wedi cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ym 44% o'r negeseuon a wiriwyd. Mae hyn yn awgrymu bod lle i gryfhau'r ddealltwriaeth o beth sy'n cyfrif fel 'trin y Gymraeg yn llai ffafriol' wrth gyflwyno'r Gymraeg, er gwaethaf y ffaith fod y cynnwys ar gael.
- 3.8 O'r chwe cyfrif a wiriwyd ar Instagram, roedd pedwar yn gyfrifon dwyieithog. Eto, efallai bod lle yma i ystyried dull mwy cyson ar draws sefydliadau, ynghyd ac ystyried os yw iaith y cyfrif yn effeithio ar lefelau cydymffurfiaeth, yn enwedig wrth ystyried os yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

LinkedIn

- 3.9 Ar blatfform LinkedIn, roedd 44% o'r negeseuon a wiriwyd yn cydymffurfio'n llawn â gofynion safon 54, gyda 100% o'r negeseuon ar gael yn Gymraeg. Roedd un sefydliad wedi cydymffurfio'n llawn ym mhob un o'r 10 neges a wiriwyd, tra bod y lleill yn amrywio o gydymffurfiaeth rhannol neu lawn. Roedd y sefydliadau eraill unai yn cydymffurfio'n llawn neu'n rhannol yn y negeseuon a wiriwyd.
- 3.10 Er bod y Gymraeg ar gael ym mhob achos, gwelwyd bod y Gymraeg wedi'i thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ym 56% o'r negeseuon. Mae hyn yn awgrymu bod lle i wella'r ffordd y caiff y Gymraeg ei chyflwyno ar y platfform.

Hunaniaeth gorfforaethol



- 3.11 O safbwynt gofynion safon 79, sy'n ymwneud â'r ddyletswydd i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gyflwyno hunaniaeth gorfforaethol, gwelwyd cydymffurfiaeth lawn ym mhob un o'r cyfrifon a wiriwyd ar blatfformau Facebook ac X.
- 3.12 Ar Instagram a LinkedIn fodd bynnag, gwelwyd bod y Gymraeg wedi'i thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn 50% ac 66% o'r cyfrifon yn y drefn honno. Mae hyn yn awgrymu bod heriau penodol yn parhau ar y platfformau hyn o ran sicrhau statws cyfartal i'r Gymraeg wrth gyflwyno gwybodaeth gorfforaethol.
- 3.13 Y prif resymau dros fethu â chydymffurfio oedd defnyddio dolenni uniaith Saesneg ar gyfer tudalennau sefydliadol, a chyflwyno gwybodaeth am y sefydliad ar frig y dudalen yn uniaith Saesneg. Mae'r rhain yn feysydd lle gellir ystyried camau gwella cymharol syml i gryfhau cydymffurfiaeth.

4 Tueddiadau

Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

- 4.1 Roedd nifer o sefydliadau yn gosod y testun Cymraeg o dan y Saesneg yng nghorff y neges. Mae hyn nid yn unig yn awgrymu triniaeth lai ffafriol i'r Gymraeg o ran trefn yr iaith, ond hefyd yn gallu effeithio ar hygyrchedd y testun Cymraeg – yn enwedig ar blatfformau megis Facebook, lle mae darnau hir o destun yn cael eu cuddio tu ôl i fotwm “darllen mwy”.
- 4.2 Roedd enghreifftiau hefyd lle roedd sefydliadau wedi gosod paragraffau testun Saesneg a Chymraeg bob yn ail, gyda'r Gymraeg bob tro yn dilyn y Saesneg. Er bod y cynnwys ar gael yn y ddwy iaith, mae'r dull hwn yn gallu bod yn anodd ei ddilyn, ac yn parhau i awgrymu triniaeth lai ffafriol na'r Saesneg.
- 4.3 Roedd sawl enghraifft lle'r oedd llai o wybodaeth ar gael yn y neges Gymraeg o'i gymharu â'r neges Saesneg gyfatebol, ac enghreifftiau lle nad oedd post cyfatebol Cymraeg o gwbl.
- 4.4 O ran cynnwys fideo, gwelwyd enghreifftiau lle roedd y trosais yn newid rhwng y ddwy iaith – gyda brawddegau gwahanol yn cael eu cyflwyno yn Gymraeg ac yn Saesneg, a'r isdeitlau yn ddwyieithog drwyddo. Mae angen eglurder a chysondeb wrth gyflwyno'r Gymraeg ar ffurf fideo.

Hunaniaeth Gorfforaethol

- 4.5 Gwelwyd nifer o achosion lle roedd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg chyflwyno wrth gyflwyno hunaniaeth gorfforaethol ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol. Roedd rhai sefydliadau'n defnyddio dolenni uniaith Saesneg ar eu tudalennau, gan gynnwys dolenni ar frig tudalennau cyfrifon Cymraeg neu ddwyieithog a oedd yn arwain at wefannau Saesneg yn unig. Yn ogystal, roedd testun disgrifiadol ar brif dudalennau rhai cyfrifon dwyieithog yn uniaith Saesneg.
- 4.6 Gwelwyd hefyd enghreifftiau lle'r oedd y Saesneg yn cael ei osod uwchben y Gymraeg ar logos, pennawd y dudalen, a threfn y testun. Mewn rhai achosion, hyd yn oed cyfeiriadau e-bost a roddwyd ar gyfer cysylltu â'r sefydliad oedd yn uniaith Saesneg (e.e. information@test.com). Mae'r patrymau hyn yn awgrymu bod lle i gryfhau'r dull o gyflwyno hunaniaeth gorfforaethol yn ddwyieithog, er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn gyfartal.

Materion Hygyrchedd

- 4.7 Pan osodir y testun Cymraeg o dan y Saesneg mewn negeseuon hir, mae'n aml yn ofynnol i'r defnyddiwr glicio neu sgrollo i weld y cynnwys Cymraeg. Mae hyn yn gallu effeithio ar hygyrchedd y Gymraeg, yn enwedig ar blatfformau lle mae'r testun yn cael ei guddio'n rhannol yn ddiodyn. Mae trefn y testun felly'n bwysig nid yn unig o safbwynt statws yr iaith, ond hefyd o ran profiad y defnyddiwr.

Fideos / defnydd o is-deitlau a tros lais

- 4.8 Gwelwyd enghraifft o fideo lle roedd y troslais yn newid rhwng y Gymraeg a'r Saesneg – gyda brawddegau gwahanol yn cael eu cyflwyno yn y ddwy iaith, heb leisio'r cynnwys yn llawn yn un o'r ieithoedd. Roedd hyn yn ei gwneud yn anodd i'w ddilyn, ac yn lleihau eglurder y neges.
- 4.9 Mewn achos arall, defnyddiwyd is-deitlau Cymraeg ar gyfer cyfrannydd a oedd yn siarad Saesneg, ond nid yn arbenigwr. Gellir dadlau y byddai'n well, yn achos fideo Cymraeg, defnyddio cyfrannydd a allai siarad Cymraeg, neu a allai gyflwyno'n ddwyieithog, er mwyn sicrhau bod y neges yn glir ac yn hygyrch i gynulleidfa Gymraeg.

5 Casgliadau ac Argymhellion

- 5.1 Yn gyffredinol, mae lefel cydymffurfiaeth y sefydliadau â'r safonau sy'n ymwneud â chyfryngau cymdeithasol yn uchel, yn enwedig wrth edrych ar draws y sefydliadau sy'n dod o dan reoliadau rhif 2. Mae hyn yn adlewyrchu ymrwymiad cadarn i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio'n effeithiol ar y platfformau hyn.
- 5.2 Serch hynny, mae'r Gymraeg yn parhau i gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn nifer sylweddol o achosion – gyda hyd at hanner y negeseuon a wiriwyd ar Instagram a LinkedIn yn dangos y math hwn o driniaeth. Mae hyn yn dangos nad yw sefydlu cyfrif Cymraeg penodol, nac ychwaith cyhoeddi neges yn Gymraeg ynddo 'i hun, yn ddigon i sicrhau cydymffurfiaeth lawn. Mae angen ystyried materion fel safle'r testun, iaith fideos neu glipiau sain, defnydd o hash nodau, gwelededd a hygyrchedd, yn ogystal â sicrhau bod y cynnwys Cymraeg o'r un safon â'r deunydd Saesneg.
- 5.3 Wrth sefydlu a chynnal cyfrifon cyfryngau cymdeithasol, rhaid ystyried gofynion sy'n ymwneud â hunaniaeth gorfforaethol yn ogystal â'r safonau penodol ar gyfer cynnwys. Dylid sicrhau nad yw elfennau megis logo, enw'r sefydliad, dolenni a gwybodaeth ar y proffil yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 5.4 Ar sail canfyddiadau'r arolwg, rydym yn cyflwyno'r argymhellion isod i'r sefydliadau sydd yn ddarostyngedig i Reoliadau Safonau'r Gymraeg Rhif 2:

Argymhelliad 1: Trefniadau goruchwyllo

Dylai sefydliadau adolygu eu prosesau human reoleiddio i sicrhau bod pob cyfrif cyfryngau cymdeithasol ar bob platfform yn cydymffurfio â'r safonau perthnasol. Dylid darparu arweiniad clir i'r holl staff sy'n gyfrifol am bostio ar y cyfryngau cymdeithasol, er mwyn sicrhau eu bod yn llwyr ymwybodol o ofynion y safonau ac yn hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg.

Argymhelliad 2: Hunaniaeth gorfforaethol

Dylai sefydliadau gynnal archwiliad llawn o'u holl gyfrifon cymdeithasol i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gyflwyno hunaniaeth gorfforaethol. Dylai'r archwiliad gynnwys elfennau megis logos, enwau, handlenni a gwybodaeth broffil.

Argymhelliad 3: Cysondeb wrth gyhoeddi negeseuon

Wrth gyhoeddi negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol, dylai sefydliadau sicrhau bod y cynnwys Cymraeg yn gyflawn – gan gynnwys testun, lluniau, fideos a chlipiau sain. Dylid hefyd sicrhau bod y Gymraeg yr un mor hygyrch ac amlwg â'r Saesneg.

Argymhelliad 4: Fideos

Dylai sefydliadau archwilio dulliau amgen o gyhoeddi fideos yn Gymraeg, gan sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg o fewn y fideos hynny – o ran troslais, isdeitlau, ac arddull cyflwyno.

Atodiadau

Atodiad 1: Data'r arolwg

	Facebook Corfforaethol	X Corfforaethol	Instagram Corfforaethol	LinkedIn Corfforaethol	Cyfanswm a chanran
Nifer y sefydliadau sy'n defnyddio'r platfform	7/7	6/7	6/7	6/7	25/28
Nifer y sefydliadau â chyfrif Cymraeg ar wahân	1/7 (14.3%)	4/6 (66.7%)	1/6 (16.7%)	0/6 (0%)	6/25 (24%)
Nifer y sefydliadau a chyfrif dwyieithog	5/7 (71.4%)	2/6 (33.3%)	4/6 (66.7%)	6/6 (100%)	17/25 (68%)
Nifer y sefydliadau â chyfrif Saesneg yn unig	1/7 (14.3%)	0/6 (0%)	1/6 (16.7%)	0/6 (0%)	2/25 (8%)
% yn cydymffurfio â gofynion hunaniaeth gorfforaethol	7/7 (100%)	6/6 (100%)	3/6 (50%)	2/6 (33.3%)	19/28 (67.9%)
Nifer y negeseuon a wiriwyd	40	40	50	43	173
Nifer a % y negeseuon oedd ar gael yn Gymraeg	40/40 100%	38/40 95%	50/50 100%	43/43 100%	171/173 (98.8%)
Nifer a % y negeseuon oedd yn cydymffurfio yn llawn	30/40 75%	37/40 92.5%	28/50 56%	19/43 44%	114/173 (65.9%)
Nifer a % y negeseuon oedd yn cydymffurfio yn rhannol	10/40 25%	3/40 7.5%	22/50 44%	24/43 56%	59/173 (34.1%)
Nifer y negeseuon oedd yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg (yn cynnwys yn llawn neu yn rhannol)	10/40 25%	3/40 7.5%	22/50 44%	24/43 56%	59/173 (34.1%)

Atodiad 2

Cod Ymarfer Rheoliadau rhif 1 – rhai adrannau perthnasol i'r canfyddiadau ac argymhellion sydd yng nghorff yr adroddiad.

Beth yw ystyr y term 'peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg'?

4.11.8. Mae Atodlen 1, Rhan 3, Paragraff 36 y rheoliadau yn nodi:

“At ddiben safonau 52 i 57 (gwefannau ac apiau) a safonau 58 a 59 (cyfryngau cymdeithasol), mae cyfeiriadau at beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn cynnwys, ymysg materion eraill (ac yn ychwanegol at faterion penodol y cyfeirir atynt mewn unrhyw safon unigol), beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol o ran— (a) golwg y deunydd (er enghraifft, mewn perthynas â lliw, maint, ffont a fformat unrhyw destun), neu (b) pan gyhoeddir deunydd ar y wefan, yr ap neu'r cyfryngau cymdeithasol; ond nid yw'n golygu bod rhaid i ddeunydd Cymraeg ymddangos ar yr un dudalen â deunydd Saesneg, nac ar dudalen y mae person yn debygol o ddod o hyd iddi cyn y dudalen Saesneg wrth chwilio.”

4.11.9. Gall 'materion eraill' gynnwys peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol o ran:

- iaith y deunydd
- trefn iaith y deunydd
- safon ac ansawdd y deunydd
- lleoliad ac amlygrwydd y deunydd o pryd a sut y caiff y deunydd ei gyhoeddi
- fformat cyhoeddi'r deunydd
- eglurder a chywirdeb y deunydd (er enghraifft o ran ystyr a mynegiant unrhyw destun), a
- chynnwys y deunydd (er enghraifft o ran manylder neu ansawdd y wybodaeth a gynhwysir yn y deunydd).

Mae rhan Gymraeg o negeseuon dwyieithog yn cael ei chuddio weithiau. Sut mae sicrhau nad yw hynny'n golygu bod y corff yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

4.11.21. Mewn rhai achosion, gall testun mewn negeseuon ar blatfformau cyfryngau cymdeithasol ymddangos mewn ffenestri sy'n gyfyngedig o ran maint. Gall hyn olygu nad oes modd i berson weld rhan olaf neges nes ei fod yn clicio dolen ychwanegol.

4.11.22. Gall corff sicrhau nad yw'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg drwy sicrhau nad yw'n anoddach gweld fersiwn Gymraeg o neges o'i gymharu â fersiwn Saesneg o'r un neges. Er enghraifft, gall corff sicrhau nad oes rhaid cymryd camau pellach, megis sgrolio lawr sgrin am yn hirach, neu glicio dolen ychwanegol, i ddod o hyd i'r fersiwn Gymraeg. Gall corff ddewis gosod negeseuon Cymraeg uwchben neu i'r chwith o negeseuon Saesneg er mwyn osgoi hynny.

A yw 'tagiau' a 'hashnodau' yn berthnasol i'r safonau hyn?

4.11.23. Ydyn, gallent fod yn ystyriaeth er mwyn sicrhau nad yw corff yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol.

4.11.24. Os yw corff yn tagio neu'n sôn am berson arall ('mention') mewn neges, gall sicrhau nad yw'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg drwy sicrhau bod fersiwn Gymraeg y neges honno yn tagio neu'n sôn am gyfrif Cymraeg y person hwnnw (os oes un ar gael). Er enghraifft, os yw corff yn trydar yn Gymraeg am berson arall ac yn sôn am y person hwnnw drwy dagio enw defnyddiwr y person o fewn y neges, gall sicrhau ei fod yn tagio enw cyfrif Cymraeg y person hwnnw yn hytrach na'i gyfrif Saesneg cyfatebol (os yw'n gweithredu cyfrifon Cymraeg a Saesneg ar wahân).

4.11.25. Os yw corff yn creu hash nodau ar gyfer neges, gall sicrhau nad yw'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg drwy ddefnyddio hash nodau Cymraeg neu ddwyieithog ar gyfer negeseuon Cymraeg.

4.11.26. Os yw corff yn defnyddio hashnodau a grëwyd gan bersonau eraill mewn neges, gall sicrhau nad yw'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg drwy ddefnyddio fersiynau Cymraeg neu ddwyieithog o'r hashnodau hynny (lle mae rhai yn bodoli) ar gyfer negeseuon Cymraeg.

Oes rhaid i gorff sicrhau bod eu henwau defnyddiwr ac enw eu cyfrifon ar y cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg?

4.11.29. Gall corff sicrhau nad yw'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol drwy sicrhau bod eu henwau defnyddiwr ('handle') ac enwau eu cyfrifon ('display name') ar gael yn Gymraeg.

4.11.30. Gall hynny ddigwydd drwy ddefnyddio un o'r canlynol:

- enw defnyddiwr ac enw cyfrif Cymraeg yn unig ar gyfrif dwyieithog
- enw defnyddiwr ac enw cyfrif dwyieithog ar gyfrif dwyieithog; neu drwy
- weithredu cyfrifon Cymraeg a Saesneg ar wahân fel y nodir ym mharagraff 4.11.7 gydag enw defnyddiwr ac enw cyfrif Cymraeg neu ddwyieithog.